

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A487
(ABERYSTWYTH, CEREDIGION)
(GWAHARDDIADAU TRAFFIG DROS DRO)
2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn cynnal digwyddiad Parêd Gŵyl Dewi ar gefnffordd yr A487, neu gerllaw iddi, yn Aberystwyth, Ceredigion.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y digwyddiad, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A487 o'r enw Y Stryd Fawr a Sgwâr Owain Glyndŵr sy'n ymestyn o'i chyffordd â Stryd y Bont a Heol y Wig hyd at ei chyffordd â Ffordd y Môr a Rhodfa'r Gogledd.

Hefyd, gwaherddir pob cerbyd rhag defnyddio'r lleoedd llwytho a dadlwytho ar hyd y darn o'r gefnffordd uchod yn ystod cyfnod y digwyddiad.

Y llwybr arall yw mynd ar Dan Dre a Ffordd Alexandra tua'r gogledd-ddwyrain a Ffordd y Môr tua'r gogledd i ail-ymuno â'r A487 yn Rhodfa'r Gogledd.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 1 Mawrth 2025 a bydd yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn weithredol o 13:00 – 13:15 o'r gloch ar y dyddiad hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A487 TRUNK ROAD (ABERYSTWYTH,
CEREDIGION) (TEMPORARY TRAFFIC
PROHIBITIONS) ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order under section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to hold the St David's Day Parade event on or near the A487 trunk road at Aberystwyth, Ceredigion.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the event, from proceeding on the length of the A487 trunk road known as Great Darkgate Street and Owain Glyndwr Square that extends from its junction with Bridge Street and Pier Street to its junction with Terrace Road and North Parade.

All vehicles will also be prohibited from using the loading and unloading bays along the above length of the trunk road during the event period.

The alternative route is via the north-eastbound Mill Street and Alexandra Road and northbound Terrace Road to rejoin the A487 at North Parade.

The Order comes into force on 1 March 2025 and has a maximum duration of 1 day. The temporary prohibitions are expected to operate from 13:00 – 13:15 hours on that date.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government